Llywodraeth Cymru

# Recriwtio a Chadw Athrawon

## Papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

11/09/2025

## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i lywio'r ymchwiliad i recriwtio a chadw athrawon.

# Cynnwys

**1. Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg .......................... 3**

**2. Recriwtio .......................................................................... 4**

Llwybrau i addysgu ........................................................ 4

Recriwtio i addysg gychwynnol athrawon ........................................ 5

Cymhellion addysg gychwynnol athrawon ........................................ 6

Gweithgareddau marchnata ac eirioli cenedlaethol i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio AGA........................................ 6

Arbenigedd pwnc ........................................................ 8

Athrawon cyfrwng Cymraeg a hyfedredd yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg ........................................ 10

Recriwtio mewn ysgolion ........................................................ 13

**3. Ffactorau sy'n effeithio ar gadw ........................................ 15**

Cymorth gyrfa gynnar a dysgu proffesiynol ........................................ 15

Hunaniaeth broffesiynol athrawon ........................................ 16

Cyflog athrawon........................................................ 16

Llesiant athrawon ........................................................ 17

Llwyth gwaith athrawon........................................................ 17

**4. Arweinwyr ysgolion ........................................................ 19**

**5. Amrywiaeth y gweithlu ........................................................ 20**

**6. Effaith ar gyflawni diwygiadau addysgol ........................................ 21**

**7. Effaith ar ddysgwyr ........................................................ 22**

**8. Effaith ar athrawon a'r gweithlu ehangach ........................................ 23**

# 1. Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg

Ym mis Ionawr, nodais fy mwriad i ddatblygu Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol / llywodraethwyr fel cyflogwyr, partneriaid undeb a staff ysgolion, rhieni / gofalwyr, a dysgwyr. Bydd y cynllun strategol yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n glir ar gyflawni a gwella ein gweithlu addysg.

Mae gwaith i ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg yn mynd rhagddo. Bydd y cynllun yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer cefnogi'r gweithlu ysgol mewn pedwar maes allweddol:

- Cefnogi ein gweithlu i ddarparu addysgu a dysgu o safon i wella deilliannau i ddysgwyr
- Mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith
- Ymateb i heriau newydd i weithlu yr ysgol a sicrhau mynediad at gymorth trwy weithlu arbenigol
- Sicrhau bod addysgu, arweinyddiaeth a chefnogi addysgu yn parhau i fod yn llwybr gyrfa deniadol.

Bydd lles staff yn ystyriaeth allweddol ar draws y pedwar maes.

Bydd manylion y cynllun yn parhau i gael eu datblygu gyda'r proffesiwn, awdurdodau lleol / cyrff llywodraethu fel y cyflogwyr, undebau’r gweithlu addysg a'n partneriaid allweddol dros y misoedd nesaf. Byddaf hefyd yn ystyried ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Recriwtio a Chadw Athrawon, a fy nod yw cyhoeddi'r cynllun yn ystod tymor y gwanwyn.

# 2. Recriwtio

## Llwybrau i addysgu

Cred Llywodraeth Cymru fod Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) o ansawdd uchel sy’n ymgysylltu â’r sector addysg ehangach yn ffactor pwysig er mwyn denu graddedigion a sicrhau cyflenwad o athrawon newydd i’r proffesiwn addysgu. Dechreuwyd ar y gwaith o ddiwygio’r system AGA yng Nghymru yn dilyn adroddiad Addysgu Athrawon Yfory. Cafodd y gwaith hwnnw ei ategu gan nifer o ddiwygiadau rhyngysylltiedig a rhyngddibynnol eraill gan gynnwys safonau proffesiynol newydd, ein cwricwlwm newydd a newidiadau i gyllid myfyrwyr.

Mae'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru (y ‘meini prawf’) yn amlinellu model lle mae gan ysgolion a sefydliadau addysg uwch ran gyfartal i'w chwarae wrth gynnig y cydbwysedd rhwng theori ac ymarfer i sicrhau profiad o ansawdd uchel i athrawon y dyfodol. Mae'r partneriaethau hyn yn ymestyn i ysgolion fod yn bartner cyfartal yn natblygiad cychwynnol a sicrwydd ansawdd parhaus eu rhaglenni AGA, hyfforddiant staff, a strategaethau a gweithgareddau recriwtio. Gwnaeth yr arferion addawol i baratoi athrawon (AGA) a nodwyd yn adroddiad Flying Start yr OECD dynnu sylw at ein dull o gydnabod ysgolion fel partner pwysig wrth ddylunio a chyflwyno rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a chreu a defnyddio ymchwil fel cryfder.

Mae'n bwysig nodi rôl ddiwygiedig a chynyddol ysgolion yn y system AGA yng Nghymru. Mae'r trefniadau partneriaeth AGA rhwng ysgolion a phrifysgolion bellach yn cefnogi system sy'n hunanwella, gyda'r proffesiwn yn gweithio i wella ei hun ac eraill. Mae ysgolion ym Mhartneriaethau AGA Cymru yn gyfrifol am sicrhau y caiff athrawon dan hyfforddiant eu recriwtio i AGA yn genedlaethol, ac maent yn rhan hanfodol o hyn.

Ar hyn o bryd mae 5 darparwr yn darparu AGA trwy'r llwybrau amser llawn israddedig ac ôl-raddedig mwy traddodiadol:

- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Prifysgol De Cymru

Yn ogystal, fel rhan o'r diwygiadau i AGA, gwnaeth Llywodraeth Cymru gaffael llwybrau AGA amgen ledled Cymru ac mae'n parhau i gefnogi'r rhain. Enillodd y Brifysgol Agored y contract a datblygodd y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) Cyflogedig a'r Cwrs TAR Rhan-amser. Bwriedir i'r cyrsiau TAR hyn gefnogi graddedigion sy'n dymuno ymuno â'r proffesiwn addysg na fyddent yn gallu gwneud hynny fel arall drwy TAR amser llawn traddodiadol (megis y rhai sydd am newid gyrfa, rhieni/gofalwyr sy'n oedolion, y rhai o aelwydydd/cefndiroedd incwm isel, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn gallu cyrraedd prifysgol ranbarthol). Mae'r ddau gwrs TAR wedi bod ar gael ers blwyddyn academaidd 2020/21 ac mae gwaith dadansoddi a wnaed gan y Brifysgol Agored ar ei hathrawon dan hyfforddiant yn dangos eu bod yn garfan unigryw, gan gynrychioli athrawon dan hyfforddiant ychwanegol sy'n astudio i ddod yn athrawon na fyddent wedi gallu gwneud hynny fel arall.

Mae'r pynciau uwchradd sydd ar gael wedi cael eu hehangu sawl gwaith er mwyn cydnabod galw a brofwyd gan ymgeiswyr ac ysgolion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. O fis Medi 2025 ymlaen, gellir astudio'r holl bynciau blaenoriaeth a Saesneg, Saesneg gydag Astudiaethau'r Cyfryngau a Chynradd drwy'r TAR Rhan-amser neu'r TAR Cyflogedig. Mae cyllid myfyrwyr ar gael i athrawon dan hyfforddiant sy'n astudio'r cwrs TAR rhan-amser ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r athrawon dan hyfforddiant a'r ysgolion sy'n eu cyflogi ar y TAR Cyflogedig drwy gyllid grant am dair blwyddyn academaidd arall (2024/25 i 2026/27). Mae hyn yn cynnwys cost eu cwrs TAR, a chyfraniad at eu cyflog a ddarperir i'r ysgolion sy'n eu cyflogi.

Mae newidiadau i'r cyllid grant sydd ar gael i ysgolion (y Grant Cyfraniad Cyflog) ers gweithredu cychwynnol y llwybrau AGA Amgen, fel a ganlyn:

Yn 2022 cododd fy rhagflaenydd, drwy Gynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg, y Grant Cyfraniad Cyflog ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (neu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg gyda myfyrwyr athrawon pwnc Cymraeg). Dyblwyd hyn ac mae bellach yn 100% o Fand 1 o'r raddfa gyflog Athrawon Anghymwys.

Cytunais hefyd yn ddiweddar y gallai'r holl ysgolion cynradd a gynhelir hefyd gael mynediad at y Grant Cyfraniad Cyflog o 50% o fis Medi 2025, ac y gallai ysgolion uwchradd o fewn categori iaith drosiannol (ynghyd â gofynion gweithredol eraill) gael mynediad at y Grant Cyfraniad Cyflog o 100% ar gyfer cefnogi athrawon sy'n fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn parhau i gael mynediad i'r Grant Cyfraniad Cyflog ar 50%. Bwriad hyn yw cefnogi cynllunio gweithlu ysgolion ac awdurdodau lleol o dan eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chyflwyno Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Mae dwy raglen newydd wedi'u hachredu yn ddiweddar ac yn cael eu treialu:

- AGA Met Caerdydd ar gyfer gweithwyr mewn ysgolion (gyda'r bwriad o ddarparu llwybr i athrawon anghymwys sydd eisoes yn gweithio mewn ysgolion)
- TAR Cynradd Bangor gydag arbenigedd Niwroamrywiaeth.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i sicrhau bod gan bob athro dan hyfforddiant, ni waeth pa lwybr AGA y bydd yn ei ddilyn, yr hawl i AGA o ansawdd uchel sy'n ei baratoi i ymuno â'r gweithlu addysgu, ac yn cael yr addysg honno. Mae pob rhaglen AGA yng Nghymru sy'n dyfarnu statws athro cymwysedig (SAC) yn ddarostyngedig i'r un safonau uchel drwy ein fframwaith rheoleiddio a lywiwyd gan dystiolaeth (gweler hefyd Cylchgrawn Addysg Cymru: Furlong, 2016, a Furlong, 2020). Mae hyn yn amddiffyn rhag gweithlu dwy haen ac yn sicrhau bod athrawon o ansawdd uchel sydd wedi'u paratoi'n briodol yn ysgolion Cymru.

## Recriwtio i addysg gychwynnol athrawon

Mae recriwtio addysg gychwynnol athrawon i'r sector cynradd yn parhau i fod yn hyfyw. Fodd bynnag, mae recriwtio i'r uwchradd yn parhau i fod yn heriol, gyda chystadleuaeth gref gan sectorau eraill ar gyfer graddedigion ag arbenigeddau STEM, wedi'i waethygu gan niferoedd hyd yn oed llai sydd â gallu Cymraeg.

Rydym yn ymwybodol bod gwledydd eraill y DU ac Iwerddon yn wynebu problemau tebyg yn denu digon o raddedigion STEM i gofrestru ar gyfer addysg gychwynnol athrawon uwchradd.

Mae'r pwyllgor eisoes wedi clywed tystiolaeth gan y Cyngor Gweithlu Addysg sy'n tynnu sylw at rai o'r heriau recriwtio i AGA uwchradd. Mae ein cyhoeddiad diweddar Addysg Gychwynnol i Athrawon: Awst 2022 i Orffennaf 2024 (canlyniadau pennawd) yn dangos bod nifer yr ymgeiswyr i gyrsiau AGA ysgolion uwchradd yng Nghymru 56% yn is na'r dyraniadau yn 2023/24. Mae hyn yn amlwg yn bryder mawr.

## Cymhellion addysg gychwynnol athrawon

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gymhellion i ddenu ymgeiswyr i AGA yng Nghymru. Mae'r cynlluniau hyn yn targedu'r meysydd a'r pynciau hynny lle mae recriwtio fwyaf heriol; pynciau â blaenoriaeth, y sector cyfrwng Cymraeg a denu mwy o newydd-ddyfodiaid o leiafrifoedd ethnig. Gall unigolion cymwys fanteisio ar bob un o'r cynlluniau cymhelliant. Ym mlwyddyn academaidd 2024/25, mae cyfanswm o £25,000 ar gael i'r rhai sy'n bodloni gofynion y tri chynllun:

- Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth (£15,000)
- Cynllun Iaith Athrawon Yfory (£5,000)
- Cynllun Cymhelliant ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol (£5,000)

## Gweithgareddau marchnata ac eirioli cenedlaethol i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio AGA.

Mae ein hymgyrch recriwtio athrawon genedlaethol Addysgu Cymru yn canolbwyntio ar ddenu ceisiadau i addysg uwchradd o fewn meysydd pwnc blaenoriaeth lle mae prinder athrawon, cynyddu'r nifer sy'n gallu addysgu yn Gymraeg, a gwella cynrychiolaeth athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae gan Addysgu Cymru gyllideb flynyddol o tua £250k. Mae'r dull rydyn ni wedi'i gymryd yn ddull wedi'i dargedu yn hytrach na dull blanced. Mae'r penderfyniad hwn ar sail ymchwil a mewnwelediad i ddeall y cymhellion a'r rhwystrau i ddod yn athro yng Nghymru.

Yn seiliedig ar nodi cymhellion a rhwystrau, rydym wedi ail-alinio ein hymgyrch i dargedu'r segmentau cynulleidfa canlynol, gan ddewis y sianeli sydd fwyaf tebygol o'u cyrraedd:

- Dysgwyr/israddedigion sy'n astudio pynciau â blaenoriaeth
- Graddedigion pwnc â blaenoriaeth, newidwyr gyrfa posibl
- Cynorthwywyr Addysgu

O fewn y ddau grŵp cyntaf rydym yn targedu siaradwyr Cymraeg a Saesneg gyda negeseuon gwahanol. Mae hyn o ganlyniad i'r mewnwelediad sy'n dangos bod gan nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg wahanol gymhellion a rhwystrau i ystyried addysgu fel gyrfa. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan y profion creadigol.

Mae ymgyrch Addysgu Cymru yn cynnwys athrawon go iawn yng Nghymru. Cynhaliwyd y gweithgarwch diweddaraf yn ystod mis Gorffennaf ac Awst. Bydd gweithgarwch ychwanegol ym mis Hydref ac yn y Flwyddyn Newydd yn rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2026.

Mae'r gweithgarwch yn cynnwys ystod eang o dechnegau cyfathrebu gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu (Facebook, TikTok, LinkedIn, X), hysbysebu ar-lein, radio, teledu dal i fyny, cysylltiadau cyhoeddus, hysbysebu

awyr agored, cylchlythyron UCAS a phresenoldeb mewn digwyddiadau allweddol. Rydym wedi ymgymryd â hysbysebu teledu yn y gorffennol ar S4C, gan dargedu siaradwyr Cymraeg. Nid ydym wedi ymgymryd â hysbysebu cyfryngau torfol (teledu cenedlaethol, hysbysebu sinema) gan nad dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu â'n cynulleidfaoedd targed.  Byddai hysbysebu teledu neu sinema cenedlaethol yn ddull blanced nad yw'n cyd-fynd â'n targedu strategol. Mae ein cynulleidfaoedd yn bennaf o dan 40 oed ac yn tueddu i beidio â gwylio teledu traddodiadol. Mae tystiolaeth yn dangos bod sianeli digidol wedi'u targedu yn darparu gwell ymgysylltiad a gwerth wrth gyrraedd y grwpiau hyn. Byddai angen cynnydd sylweddol iawn yn y gyllideb pe baem yn mabwysiadu technegau marchnata torfol.

Mae'n bwysig sicrhau bod yr ymgyrch yn berthnasol, yn ddilys ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa. Yn yr hydref byddwn yn recriwtio llysgenhadon Addysgu Yfory Heddiw - athrawon ysbrydoledig a fydd yn wynebau ein hymgyrch. Bydd eu straeon, eu hwynebau a'u eiriolaeth wrth wraidd ein hymgyrch wrth adrodd straeon ar draws sawl pwynt cyffwrdd: gan gynnwys ar sianeli cymdeithasol Addysgu Cymru, mewn hysbysebu, drwy sylw a enillwyd yn y cyfryngau (cyhoeddusrwydd sy'n cael ei greu heb wariant). Rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2025, mae gweithgarwch ymgyrch Addysgu Cymru wedi cyflwyno dros 234,000 o ddefnyddwyr i wefan Addysgwyr Cymru ac wedi cynhyrchu 11,199 o gliciau drwodd i wefannau'r Partneriaeth AGA.

Gall ysgolion fod yn arfau pwerus wrth recriwtio athrawon, gan gynnwys cyn-ddisgyblion. Rydym yn gweithio ar gynhyrchu cynnwys i ysgolion ei rannu gyda'u cyn-fyfyrwyr. Rydym hefyd yn archwilio sut y gallwn weithio'n agosach gydag awdurdodau lleol i helpu gyda thueddiadau'r farchnad lafur leol, eu cynnwys yn ein gwaith ymgyrchu a theilwra ein gweithgarwch ymgyrchu i weithio ar sail leol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i integreiddio'r ymgyrch genedlaethol â'u gwasanaeth eiriolaeth. Lansiwyd gwasanaeth recriwtio, eiriolaeth a chymorth Addysgwyr Cymru (dan arweiniad CGA ac wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru) ym mis Medi 2021 ac mae wedi ymgysylltu â dros 27,000 o unigolion (yn gywir ym mis Ionawr 2024) sydd â diddordeb mewn gyrfa yn addysgu. Mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn cynnig un pwynt gwybodaeth i unigolion ar bob agwedd ar addysgu fel gyrfa yn ogystal â gwasanaeth recriwtio a gwybodaeth am ddim i unigolion sy'n chwilio am gyfleoedd dilyniant fel addysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth cynhwysfawr gan gynnwys ysgrifennu cais a CV, a gweithdai sgiliau cyfweliad. Yn ogystal â gweithio'n agos gydag Addysgu Cymru, mae'r gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd a gweithio mewn partneriaeth, megis cefnogi Partneriaethau AGA gyda syniadau arloesol i weithredu gweithgarwch yn eu strategaethau a'u cynlluniau recriwtio eu hunain, megis hyrwyddo AGA ar y campws. Mae Addysgwyr Cymru hefyd yn cyflwyno sesiynau gwybodaeth am yrfaoedd ym maes addysg yng Nghymru mewn ysgolion a ffeiriau gyrfaoedd ysgol ochr yn ochr â digwyddiadau ar raddfa fwy fel yr Eisteddfod.

Yn ogystal â'r uchod, mae'n ofynnol i'r Partneriaethau AGA o dan eu canllawiau achredu gael eu strategaethau recriwtio eu hunain. Mae tîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CGA a thimau marchnata'r prifysgolion i sicrhau synergedd, gwerth am arian a negeseuon wedi'u halinio ar draws holl weithgarwch hyrwyddo Llywodraeth Cymru, CGA a'r partneriaethau AGA yn y gofod recriwtio AGA.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Addysgwyr Cymru ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn addysgu fel proffesiwn. Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sawl cynllun sydd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n hyfforddi i ddod yn athrawon. Dros yr haf mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Addysgwyr Cymru yn cynnal gweithgareddau penodol sy'n canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg mewn nifer o ddigwyddiadau haf allweddol fel Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'n allweddol sicrhau bod addysgu yn parhau i fod yn opsiwn deniadol i raddedigion mewn marchnad swyddi hyblyg sy'n newid yn barhaus. Mae arolwg omnibws blynyddol annibynnol yr ydym yn ei gomisiynu yn dangos bod graddedigion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o ystyried addysgu fel gyrfa.

## Arbenigedd pwnc

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd hanfodol cael yr arbenigedd hwn yn ein hysgolion er mwyn galluogi cynnydd dysgwyr, ac mae'r Cwricwlwm i Gymru yn disgwyl i ddysgwyr allu arbenigo fwyfwy wrth iddynt symud ymlaen yn eu dysgu.

Caiff pynciau a/neu gyfnodau â blaenoriaeth ar gyfer AGA eu pennu'n flynyddol gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion a data'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Maent yn cynrychioli'r pwnc neu'r cyfnod lle mae problemau uniongyrchol o ran recriwtio ar gyfer AGA ac o fewn y gweithlu'n genedlaethol (gan gynnwys y gweithlu cyfrwng Cymraeg). Mae nodi'r pynciau a/neu'r cyfnodau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cymhellion wedi'u targedu i raddedigion yn y meysydd hyn er mwyn iddynt ystyried cwblhau AGA, ac ymuno â'r gweithlu addysgu wedi hynny, drwy'r Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth. Dylid nodi nad ymarfer ystadegol yn unig yw hyn, a bod yn rhaid defnyddio ffactorau cyd-destunol i bennu'r rhestr derfynol o bynciau â blaenoriaeth.

Mae pynciau STEM ac ieithoedd (gan gynnwys Cymraeg) wedi bod yn flaenoriaeth ers nifer o flynyddoedd. Mewn llawer o achosion, nid oes nifer digonol o unigolion wedi cael eu recriwtio i AGA gan fod y cyflenwad o fyfyrwyr, o Safon Uwch Cymraeg er enghraifft, wedi bod yn fach ac mae'r niferoedd llai sy'n astudio eu gradd israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg yn cymhlethu pethau ymhellach. Yn ogystal, mae ystod eang o opsiynau gyrfa cystadleuol ar gael i raddedigion STEM yn arbennig. Mae'r pynciau sydd â blaenoriaeth ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Bioleg
- Cemeg
- Dylunio a Thechnoleg
- Technoleg Gwybodaeth
- Mathemateg
- Ieithoedd Tramor Modern
- Ffiseg
- Cymraeg

Rydym hefyd yn gweithredu i helpu i feithrin capasiti arbenigol o fewn y gweithlu addysgu presennol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, rhoddodd Llywodraeth Cymru bron £163,000 i'r Sefydliad Ffiseg er mwyn cyflawni'r rhwydweithiau Ffiseg Ysgogol a Chynhwysiant a Thegwch Ysgol Gyfan. Mae'r Rhwydwaith Ffiseg Ysgogol yn rhoi hyfforddiant wedi'i dargedu i ymarferwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa ac ymarferwyr nad

ydynt yn arbenigol, ar gyfer dylunio gwersi ffiseg diddorol a llawn ysbrydoliaeth a gwella eu dealltwriaeth o gymwysterau ffiseg a llwybrau gyrfa. Mae ein Rhaglen Dyfodol Byd-eang ar gyfer ieithoedd rhyngwladol hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen ar ymarferwyr i gynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol effeithiol.

Yn ddiweddar, rydym wedi dyfarnu dros £1.8m i gais cydweithredol Cymdeithasau Dysgedig, dan arweiniad y Sefydliad Ffiseg (IOP), o dan Raglen Cymorth Grant Cwricwlwm Cymru.

Pwrpas y prosiect yw mynd i'r afael â'r materion sy'n codi o brinder ymarferwyr ffiseg a chemeg yng Nghymru drwy wella deilliannau addysgu a dysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar:

- Gwella gwybodaeth addysgegol a phynciol ymarferwyr
- Meithrin hyder ac arbenigedd
- Mentora ymarferwyr presennol a darpar ymarferwyr y dyfodol

Bydd y prosiect yn cefnogi ymarferwyr a thechnegwyr drwy fentora arbenigol ar gyfer ymarferwyr a thechnegwyr; adnoddau addysgu gwyddoniaeth a modiwlau dysgu gwyddoniaeth ar-lein; creu rhwydwaith i feithrin cefnogaeth gan gymheiriaid; a datblygiad proffesiynol, hyfforddi a mentora sy'n seiliedig ar dystiolaeth, megis Rhwydwaith Ysgogi Ffiseg yr IOP, gweithgareddau Teach Chemistry y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a'r rhaglen dysgu proffesiynol Thinking Doing Talking Science ar gyfer ysgolion cynradd. Bydd y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar gefnogi ymarferwyr gyrfa gynnar ac athrawon sydd heb arbenigo yn y pynciau hyn ac yn hyrwyddo cyfalaf gwyddoniaeth teg mewn ysgolion trwy Rwydwaith Cynhwysiant a Thegwch.

Rydym hefyd yn cymryd camau i helpu i gefnogi capasiti arbenigol o fewn y gweithlu addysgu presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen ar ymarferwyr i gynllunio a darparu darpariaeth ieithoedd rhyngwladol effeithiol. Mae'r cynllun strategol presennol Dyfodol Byd-eang wedi'i ymestyn am flwyddyn arall, hyd at 2026, er mwyn sicrhau parhad y cyfeiriad strategol ar gyfer ieithoedd rhyngwladol wrth ganiatáu i'r newidiadau sy'n digwydd yn y system addysg gael eu sefydlu. Rydym wedi sefydlu is-grŵp o bartneriaid Dyfodol Byd-eang, gan gynnwys Prifysgol Met Caerdydd a phartneriaid gwella ysgolion, i adolygu'r cynllun strategol i sicrhau bod ganddo gamau gweithredu cadarn i gefnogi ein hymarferwyr. Bydd y cynllun diwygiedig yn adlewyrchu ystod o dystiolaeth gan gynnwys adolygiad thematig diweddar Estyn ar ieithoedd rhyngwladol. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ac rwy'n disgwyl cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ar gamau nesaf y rhaglen.

Mae'r gwaith hwn yn datblygu ochr yn ochr â gwaith parhaus i uwchsgilio ymarferwyr ac ennyn diddordeb dysgwyr mewn gwersi iaith rhyngweithiol drwy:

- ein rhaglen ieithoedd E-sgol sy'n rhaglen ar-lein ryngweithiol sydd wedi'i chynllunio i roi hwb i hyder ymarferwyr cynradd i gyflwyno ac ennyn diddordeb dysgwyr mewn gwersi iaith rhyngweithiol
- y prosiect Llenyddiaeth yn Tanio'r Dychymyg a fydd yn dylunio dwy raglen ddysgu broffesiynol sy'n cwmpasu ystod o ieithoedd a deunyddiau dwyieithog i'w cynnal ar Hwb ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd
- rhaglen fentora Prifysgol Caerdydd sydd wedi'i hymestyn am dair blynedd arall ac sydd â'r nod o newid agweddau ac ymgysylltiad dysgwyr er mwyn hybu'r defnydd o ieithoedd tramor modern yn yr ysgol uwchradd.

O ran y data, mae nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer swyddi a hysbysebwyd wedi lleihau i bob pwnc rhwng blwyddyn academaidd 2020/21 a blwyddyn academaidd 2023/24, gyda'r nifer cyfartalog o geisiadau am y Gymraeg fel pwnc yn gweld cynnydd. Mae nifer cyfartalog y ceisiadau am swyddi mewn pynciau â blaenoriaeth, fel y nodir uchod, yn gyson is na nifer cyfartalog y ceisiadau ar gyfer pob swydd uwchradd (5.2). Cafodd swyddi Cemeg (1.8 cais fesul swydd), Technoleg Gwybodaeth (2.0), Bioleg (2.9), Dylunio a Thechnoleg (3.0) a Chymraeg (3.2) y nifer isaf o geisiadau fesul swydd ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Mae hyn yn cymharu ag Addysg Gorfforol (8.3), Hanes (8.0) a Saesneg (5.0) sy'n cael nifer uwch o geisiadau fesul swydd ar gyfartaledd yn gyson.

Tabl 1: Cyfartaledd ceisiadau fesul swydd a hysbysebir ar gyfer pynciau blaenoriaeth a phynciau eraill dethol, blwyddyn academaidd 2020/21 i flwyddyn academaidd 2023/24

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| Bioleg | 4.5 | 4.3 | 3.5 | 2.9 |
| Cemeg | 6.4 | 3.6 | 2.8 | 1.8 |
| Dylunio a Thechnoleg | 6.2 | 2.8 | 3.4 | 3.0 |
| Saesneg | 8.7 | 6.5 | 5.0 | 5.0 |
| Hanes | 24.4 | 8.8 | 9.7 | 8.0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 3.6 | 2.6 | 2.2 | 2.0 |
| Mathemateg | 4.7 | 4.6 | 3.5 | 4.6 |
| Ieithoedd Tramor Modern | 7.8 | 4.5 | 3.5 | 4.3 |
| Addysg Gorfforol | 14.3 | 10.3 | 6.9 | 8.3 |
| Ffiseg | 3.7 | 2.4 | 2.3 | 3.6 |
| Cymraeg | 2.6 | 2.3 | 1.8 | 3.2 |
| *Ysgolion Cynradd* | *19.3* | *14.1* | *12.3* | *15.2* |
| *Ysgolion Uwchradd* | *7.3* | *5.5* | *4.6* | *5.2* |
| Pob swydd | 12 | 9.1 | 7.8 | 10.0 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Dylid nodi bod y rhain yn flaenoriaethau pwnc cenedlaethol a nodwyd gan ddefnyddio setiau data ar lefel genedlaethol. Efallai y bydd gwahanol bryderon recriwtio ar lefel awdurdod lleol neu ysgol benodol.

## Athrawon cyfrwng Cymraeg a hyfedredd yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg

Mae ein huchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau a chamau gweithredu pellgyrhaeddol. Mae ein cwricwlwm newydd yn rhoi'r Gymraeg wrth wraidd dysgu yng Nghymru ond os ydym am greu cenedl lle mae pobl yn siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd, mae'n hollbwysig cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. I wneud hynny, mae angen gweithlu cryf a medrus arnom.

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu

Cymraeg sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. Rhaid iddo hefyd:

a) cynnwys asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyrraedd unrhyw darged, a
b) nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd, yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw, at ddibenion sicrhau bod nifer yr ymarferwyr addysg sy'n gweithio yng Nghymru yn diwallu'r angen .

Gwnaethom gyhoeddi Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ym mis Mai 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys ystod o gamau gweithredu i Lywodraeth Cymru eu cymryd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â phedwar nod allweddol:

- Cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg
- Cynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg
- Meithrin sgiliau Cymraeg pob ymarferydd
- Cynyddu'r gallu i arwain yn y sector cyfrwng Cymraeg a datblygu arweinwyr y Gymraeg ym mhob ysgol.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddwyd diweddariad i'r dogfennau dadansoddi data a dadansoddi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cyd-fynd â Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg gyda'r data diweddaraf ar y Gweithlu (gweler Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg).

Yng ngoleuni gofynion Deddf 2025 a datblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ystyried pa gamau pellach y gellir eu cymryd.

Bydd angen i ni adolygu'r targedau presennol, fel y nodir yn Cymraeg 2050, i ystyried demograffeg sy'n newid ochr yn ochr â chynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Mae'r targedau a'r cynnydd presennol fel a ganlyn:

Tabl 2: Targedau Cymraeg 2050 a chynnydd

| **Nifer yr athrawon ysgol gynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | |
|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen 2024/25** 2,678 | **Targed 2031** 3,900 | **Bwlch o ran y targed** 1,222 | **Nifer bras yr athrawon ychwanegol y flwyddyn**274 |
| **Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc neu'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | | |
| **Llinell sylfaen 2024/25** 2,458 | **Targed 2031** 4,100 | **Bwlch o ran y targed** 1,642 | **Nifer bras yr athrawon ychwanegol y flwyddyn**235 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Recriwtio athrawon uwchradd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r her allweddol ac mae nifer o gamau rydym wedi'u cymryd ers 2022 wedi canolbwyntio ar hyn. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Parhau i gynnig cyfleoedd drwy Gynllun Pontio i athrawon sydd wedi bod i ffwrdd o'r proffesiwn er mwyn iddynt ddychwelyd i addysgu; i athrawon cynradd drosglwyddo i'r sector uwchradd, ac i athrawon o'r sector cyfrwng Saesneg drosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg. Dechreuodd 19 ychwanegol ym mis Medi mewn meysydd pwnc allweddol megis Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddatrys rhai o'u heriau recriwtio drwy grant datblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg (oddeutu £800k fesul blwyddyn academaidd).
- Ariannu'r Brifysgol Agored i ehangu ei llwybr addysgu ar sail cyflogaeth, gan gynnwys dylunio a thechnoleg a chyfrifiadureg o fis Medi 2023; dyma bynciau lle mae prinder athrawon ac mae'r llwybr hwn yn galluogi darpar athrawon i hyfforddi yn eu cymunedau a chael eu talu wrth hyfforddi. Mae'r cyrsiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg mae'r costau cyflogaeth yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.
- Cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sefydlu Cadw Cyswllt sy'n hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr yn Lloegr ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.
- Cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddarparu sesiynau mentora i oddeutu 50 o unigolion fel rhan o raglen Addysgu'r Dyfodol. Mae'r rhaglen yn darparu tair sesiwn fentora ar-lein i fyfyrwyr israddedig a'r cyfle i gwblhau dau ddiwrnod o brofiad gwaith mewn ysgol (cynradd/uwchradd, cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog) i'w hannog i fynd ymlaen i addysgu. Mae system olrhain wedi cael ei rhoi ar waith er mwyn deall effaith y rhaglen.
- Sefydlu'r Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg. Bydd £5,000 ar gael i athrawon sydd wedi ennill Statws Athro Cymwysedig ers mis Awst 2020 ac sydd wedi addysgu Cymraeg am dair blynedd, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am dair blynedd, yn y cyfnod uwchradd. Bydd y fwrsariaeth ar gael tan hydref 2028 yn y lle cyntaf a bydd yn rhoi data inni ar b'un a yw cyflwyno bwrsariaeth yn annog athrawon i ymuno â'r proffesiwn ac aros ynddo.

Ochr yn ochr â chamau i gefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg, rydym hefyd wedi bod yn parhau i roi camau gweithredu ar waith i gefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg er mwyn gallu addysgu a defnyddio'r iaith yn ein holl ysgolion.

Rydym wedi datblygu canllawiau i awdurdodau lleol ddadansoddi data'r gweithlu mewn perthynas â gallu ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn y sector cyfrwng Saesneg. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i adrodd yn gyson ar eu gweithlu a'u hanghenion datblygu hyfforddiant fel rhan o'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bellach yn ymgymryd â rôl gydgysylltiedig o ran cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Gymraeg i'w darparu i'r gweithlu addysg.

Mae ymarfer cwmpasu llawn wedi cael ei gwblhau, gan weithio gyda phob awdurdod lleol er mwyn deall yr anghenion o ran datblygu sgiliau Cymraeg ar lefel leol. Yn seiliedig ar yr ymarfer hwn, mae'r Ganolfan bellach wedi datblygu cynllun i fodelau cyflawni newydd gael eu treialu, gan gynnwys cymorth mewn ysgolion, cyrsiau preswyl, cyrsiau ar-lein dan arweiniad tiwtor ac adnoddau dysgu proffesiynol. Lansiwyd y cynnig llawn ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 yn y Senedd yn ddiweddar ac mae gwybodaeth ar gael ar wefan y Ganolfan.

O fis Medi 2025, bydd y Ganolfan yn rheoli'r cyrsiau dwys sydd ar gael drwy'r Cynllun Sabothol ochr yn ochr â chyrsiau eraill sy'n cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu addysg. Mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn gweithio gyda darparwyr AGA i ddarparu adnoddau i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt hyfforddi. Mae'r rhain bellach wedi cael eu rhannu â phob darparwr a byddant yn cael eu cynnwys mewn cyrsiau ers mis Medi 2024.

## Recriwtio mewn ysgolion

Mae'r heriau staffio a wynebir gan ysgolion yn hynod gyd-destunol ac efallai na fydd pryderon ar lefel genedlaethol (megis lefel recriwtio AGA i'r sector cynradd, pynciau STEM ac addysg cyfrwng Cymraeg) yn gymwys ar lefel leol. Awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fel y cyrff cyflogi sydd yn gyfrifol am gyflogi athrawon mewn ysgolion. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod digon o staff addas yn cael eu cyflogi neu'n gweithio yn eu hysgol(ion), er mwyn darparu addysg sy'n briodol i oedran, doniau, galluoedd ac anghenion eu dysgwyr.

Mae'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn casglu gwybodaeth am addysgu pynciau mewn ysgolion a nifer yr oriau a gaiff eu haddysgu dros amserlen pythefnos. Ceir rhagor o wybodaeth yn y cyhoeddiad Canlyniadau Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion ac ar wefan StatsCymru.

Mae gwybodaeth o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn dangos bod nifer cyfwerth ag amser llawn yr athrawon ym mlwyddyn academaidd 2024/25 wedi lleihau 5.9% ers blwyddyn academaidd 2021/22.

Tabl 3: Nifer cyfwerth ag amser llawn yr athrawon fesul sector, blwyddyn academaidd 2021/22 i flwyddyn academaidd 2024/25

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Meithrin a Chynradd | 11,950 | 11,770 | 11,245 | 10,835 |
| Ysgolion Canol | 1,245 | 1,470 | 1,605 | 1,685 |
| Ysgolion Uwchradd | 10,425 | 10,280 | 9,965 | 9,680 |
| Ysgolion Arbennig | 825 | 860 | 875 | 910 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | 255 | 260 | 300 | 305 |
| Cyfanswm | 24,700 | 24,640 | 23,995 | 23,410 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Mae'r gymhareb disgybl-athro wedi cynyddu ym mhob sector ar wahân i ysgolion arbennig ym mlwyddyn academaidd 2024/25.

Tabl 4: Cymhareb disgybl-athro yn ôl sector, blwyddyn academaidd 2020/21 i flwyddyn academaidd 2024/25

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| Meithrin | 10.9 | 10.5 | 11.4 | 11.5 |
| Cynradd | 21.0 | 20.9 | 21.3 | 21.4 |
| Canol | 17.4 | 17.2 | 17.2 | 17.6 |
| Uwchradd | 16.8 | 16.6 | 17.0 | 17.5 |
| Arbennig | 6.7 | 6.7 | 6.7 | 6.5 |
| Cyfanswm | 18.5 | 18.4 | 18.6 | 18.9 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Gall y patrymau a welir yn nifer yr athrawon a chymarebau athro-disgybl fod o ganlyniad yn rhannol i gyllid Llywodraeth Cymru a ddarperir i ysgolion o dan y cynllun Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i recriwtio staff ychwanegol er mwyn cefnogi disgyblion yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Darparodd Llywodraeth Cymru y cyllid hwn i ysgolion yn ystod y pandemig a'r cyfnod adfer hyd at flwyddyn ariannol 2023-24, er i'r swm a ddosbarthwyd leihau ers y cyllid cychwynnol ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

Nifer cyfartalog y ceisiadau a gafwyd fesul swydd a hysbysebwyd ym mlwyddyn academaidd 2023/24 oedd 10.0, sydd wedi cynyddu o'i gymharu â 7.8 ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Fodd bynnag, mae yn parhau'n is na'r nifer cyfartalog o geisiadau o 12.0 ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Caiff y patrwm hwn ei adlewyrchu ym mhob sector, gyda swyddi a hysbysebwyd mewn ysgolion cynradd yn cael 15.2 o geisiadau ar gyfartaledd ym mlwyddyn academaidd 2023/24 o gymharu â 5.2 ar gyfer swyddi mewn ysgolion uwchradd.

Tabl 5: Nifer cyfartalog y ceisiadau fesul swydd a hysbysebwyd yn ôl sector, blwyddyn academaidd 2020/21 i flwyddyn academaidd 2023/24

| | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 19.3 | 14.1 | 12.3 | 15.2 |
| Ysgolion Uwchradd | 7.3 | 5.5 | 4.6 | 5.2 |
| Pob Ysgol | 12.0 | 9.1 | 7.8 | 10.0 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

# 3. Ffactorau sy’n effeithio ar gadw

## Cymorth gyrfa gynnar a dysgu proffesiynol

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod cefnogi dysgu proffesiynol athrawon o ddechrau hyd at ddiwedd eu gyrfa yn hanfodol er mwyn datblygu addysgu o ansawdd uchel.

Mae sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu cael gafael ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwarantedig drwy gydol ei yrfa yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu drwy gydol eu gyrfaoedd ac yn aros yn y proffesiwn.

Fe wnaethom adolygu'r trefniadau a'r cymorth sydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso yn 2022. Caiff pob athro newydd gymhwyso eu cefnogi drwy gydol eu blwyddyn addysgu gyntaf gyda mentor wedi'i ariannu a rhaglen dysgu proffesiynol er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt wrth iddynt ddechrau eu gyrfaoedd. Byddaf yn gofyn i Dysgu, y corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol newydd, adolygu'r rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'm blaenoriaethau ac yn darparu parhad clir o gefnogaeth wrth iddynt symud o addysg gychwynnol athrawon ymlaen trwy eu blynyddoedd cyntaf o addysgu fel rhan o raglen gyrfa gynnar.

Rydym hefyd yn ariannu gradd Meistr Genedlaethol mewn Addysg (MA) ar gyfer hyd at 200 o unigolion bob blwyddyn. Hefyd, rwyf wedi ymrwymo i ariannu Doethuriaeth Genedlaethol mewn Addysg sydd wedi bod ar gael ers mis Ionawr 2025. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu llwybr academaidd achrededig i'n hymarferwyr.

Rydym yn parhau i ddarparu cyfanswm o 6 diwrnod HMS a'r grant dysgu proffesiynol, gwerth £13.5m y flwyddyn, i gefnogi ysgolion i alluogi ymarferwyr i ymgysylltu â dysgu proffesiynol.

Bydd Dysgu, y corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol newydd yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi datblygiad ein hymarferwyr. O fis Medi 2025 bydd yn dod â dysgu proffesiynol at ei gilydd ledled y wlad. Y nod yw creu system unedig sy'n darparu cymorth cyson sy'n gwella deilliannau dysgu.

Yn ystod ei flwyddyn drosiannol gyntaf, bydd y sefydliad yn cymryd cyfrifoldeb am raglenni cenedlaethol mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd a lles, ochr yn ochr â chefnogaeth i arweinwyr. Bydd hefyd yn cymryd cyfrifoldebau a reolwyd yn flaenorol gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'r consortia rhanbarthol, gan gynnwys cefnogi cynorthwywyr addysgu.

Mae'r ad-drefnu hwn yn cynrychioli newid sylweddol tuag at ddull mwy syml a chyson o ddatblygiad proffesiynol mewn addysg yng Nghymru, gyda'r nod yn y pen draw i gefnogi addysgwyr yn well a gwella canlyniadau i ddysgwyr ledled Cymru.

## Hunaniaeth broffesiynol athrawon

Ym mis Mawrth, croesawais gyhoeddi adroddiad yr OECD 'Constructing scenarios for the future of teaching in Wales.' Roedd hyn yn rhan o astudiaeth ymchwil proffesiynoldeb newydd fyd-eang, i lywio ein huchelgeisiau ar gyfer dyfodol addysgu yng Nghymru. Ar y cyd ag ymchwil ehangach, bydd canfyddiadau'r OECD yn llywio'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, ac yn arbennig ein gwaith i godi proffil addysgu fel gyrfa, cefnogi cadw athrawon a chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion a lleoliadau ac effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr o ganlyniad uniongyrchol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn cyflwyno cyfle i newid canfyddiadau a chodi proffil addysgu. Mae'r newid sylfaenol hwn nid yn unig i'r hyn rydyn ni'n ei addysgu, ond sut rydyn ni'n ei addysgu a'r ddealltwriaeth o pam rydyn ni'n ei addysgu, yn cynnig cyfle newydd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o athrawon i ymuno â'r proffesiwn. Mae gan y ffyrdd o weithio sy'n sail i'r cwricwlwm – creadigrwydd, asiantaeth ac arweinyddiaeth athrawon ar bob lefel – hefyd y potensial i annog mwy i'r proffesiwn. Byddwn yn parhau i arddangos yr hyn y mae ymarferwyr yng Nghymru yn ei gyflawni a sut maen nhw'n cefnogi eu dysgwyr i gyrraedd eu potensial drwy Gwricwlwm i Gymru.

## Cyflog athrawon

Ar gyfer cyflog ac amodau athrawon yng Nghymru, mae proses flynyddol y cytunwyd arni ar waith sy'n cynnwys cyfuniad o bartneriaeth gymdeithasol ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Mae pob gylch gorchwyl ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru wedi gofyn iddynt roi sylw arbennig i gefnogi recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd a nifer digonol, tra'n adlewyrchu heriau cyllid cynaliadwy y sector cyhoeddus. Rydym yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a phryderon drwy ein rhwydwaith partneriaeth gymdeithasol gyda'r nod o wneud y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn amgylchedd deniadol a fydd yn annog ac yn cefnogi camau i recriwtio i'r proffesiwn.

Drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol, rydym yn cefnogi'r proffesiwn addysgu drwy sicrhau bod eu cyflog, eu telerau a'u hamodau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r proffesiwn yma yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl ac rydym yn cynnig cyflogau a lwfansau uwch i athrawon newydd ac athrawon mwy profiadol nag yn Lloegr ar hyn o bryd.

Mae'r broses flynyddol y cytunwyd arni hefyd wedi ein galluogi i gyflwyno rhai newidiadau allweddol y gofynnwyd amdanynt gan y proffesiwn er mwyn gwella system cyflogau athrawon dros y pum mlynedd diwethaf. Mae newidiadau cadarnhaol wedi cynnwys ailgyflwyno cludadwyedd cyflog a chael gwared ar ddatblygiad cyflog yn seiliedig ar berfformiad. Y llynedd, gwnaethom hefyd ddiddymu'r egwyddor pro rata lem ar gyfer lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD), gan wneud y lwfansau hyn yn fwy hygyrch ac yn llawer tecach i athrawon rhan-amser. Eleni, rwyf wedi dileu'r broses ymgeisio i symud o'r brif raddfa gyflog i'r raddfa gyflog uwch wrth i ni weithio gyda phartneriaid i ddatblygu un raddfa gyflog ar gyfer athrawon dosbarth. Rwyf hefyd wedi

ymrwymo i symud cydlynwyr ADY i raddfa gyflog y grŵp arweinyddiaeth ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl.

Mae'r newidiadau hyn yn gweithredu rhai o argymhellion Adolygiad Strategol Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru i Dâl ac Amodau Athrawon a gyhoeddwyd trwy ddatganiad ysgrifenedig ar 9 Ebrill 2024 yn ogystal ag argymhellion o bumed adroddiad y Corff. Mae ail ran y 6ed cylch gorchwyl yn parhau, a byddwn yn anfon cylch gorchwyl i'r Corff ddechrau gweithio ar eu 7fed adroddiad fel rhan o'r broses flynyddol ar gyfer Tâl Athrawon. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gyflawni'r argymhellion mwyaf dybryd o adolygiad strategol Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, yn amodol ar ystyriaethau cyllido a gweithio trwy ofynion gweithredu.

Rydym yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu system genedlaethol fwy penodol yma yng Nghymru sydd nid yn unig yn gwella'r system ond hefyd yn decach ac yn fwy tryloyw i bob athro.

## Llesiant athrawon

Gan gydnabod y cysylltiad annatod rhwng llwyth gwaith a llesiant, rydym yn parhau i ariannu Education Support i ddarparu cymorth llesiant i ysgolion yn ychwanegol at y cymorth a ddarperir gan gyflogwyr. Mae Education Support, elusen sydd â degawdau o arbenigedd mewn cefnogi'r gweithlu addysg gyda'u hiechyd meddwl a'u lles, yn darparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cyngor a chefnogaeth am ddim i ysgolion ledled Cymru a chymorth iechyd meddwl a lles pwrpasol drwy eu Gwasanaeth Lles Ysgol, gyda chefnogaeth barhaus yn ôl yr angen. Ochr yn ochr â hyn, mae Education Support yn darparu gweminarau a dosbarthiadau meistr ar gyfer holl staff y gweithlu addysg yng Nghymru, sydd â'i chasgliad ei hun o adnoddau a gwybodaeth ar y wefan, y mae llawer ohonynt ar gael yn Gymraeg.

Mae rhaglen Goruchwylio Proffesiynol Education Support, sydd wedi'i anelu at arweinwyr ysgolion, yn cael canlyniadau arbennig o gadarnhaol o ran lles a chefnogi arweinwyr i aros yn eu rolau ac mae'n rhan allweddol o'r rhaglen waith ar gyfer eleni. Rwyf wedi cael cyfarfod addysgiadol a threiddgar gyda Phrif Weithredwr Education Support ac rwy'n parhau i dderbyn adborth cadarnhaol gan arweinwyr ysgolion ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddwyd y Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r fframwaith yn statudol ar gyfer pob ysgol a gynhelir ac awdurdod lleol ac mae wedi'i anelu at anghenion dysgwyr oedran ysgol a'r gweithlu sy'n eu helpu i ddysgu. Mae'n ceisio creu amgylchedd cefnogol lle mae pobl ifanc yn cael eu hannog i gyflawni eu potensial personol ac academaidd, lle maent yn ffynnu, dysgu a datblygu'n emosiynol, gyda chefnogaeth athrawon sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n gwerthfawrogi eu llesiant eu hunain yn gyfartal.

## Llwyth gwaith athrawon

Mae llwyth gwaith yn ffactor allweddol sy'n ychwanegu pwysau ar athrawon ac arweinwyr, yn effeithio ar eu lles ac yn un o'r rhesymau dros adael y proffesiwn.

Fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Llywodraethu i leihau biwrocratiaeth i arweinwyr ysgolion, gan gymryd dull partneriaeth gymdeithasol, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid, undebau addysg a chyflogwyr i adnabod meysydd allweddol o lwyth gwaith y gellir eu newid neu eu tynnu oddi ar ysgolion i leihau llwyth gwaith, dileu biwrocratiaeth diangen, lleihau'r baich a chreu lle i athrawon addysgu.

Dechreuodd y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol, sydd â chadeirydd annibynnol, y llynedd, gydag aelodaeth yn cynnwys rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allweddol ar draws y system addysg. Mae tri gweithgor wedi cefnogi'r Grŵp, gan canolbwyntio ar gyllid; adrodd ac ymgysylltu; a datblygu a gweithredu polisi. Mae'r gweithgorau wedi cael eu cadeirio'n annibynnol gan undebau addysg a phartneriaid gwella ysgolion ac mae gan bob un gynlluniau gweithredu, cyflawniadau a thargedau. Daeth y Grŵp a'r gweithgorau i ben ar 30 Mehefin 2025 ac mae Cadeirydd y Grŵp wedi ysgrifennu ataf am gyflawniadau gwaith y grwpiau a lle byddai'n ddefnyddiol canolbwyntio ar waith pellach. Bydd camau i leihau llwyth gwaith yn parhau o dan y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ac ar gyflymder i gyflawni newidiadau. Mae hyn yn cynnwys gweithredu uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru wrth i ni weithredu ein hasesiad effaith ar lwyth gwaith. Nod hyn yw ein helpu i ystyried ac asesu effaith bosibl unrhyw bolisi neu ganllawiau newydd neu ddiwygiedig gan Lywodraeth Cymru ar lwyth gwaith staff addysg.

Drwy gymryd y camau hyn a pharhau i weithio mewn partneriaeth, rydym am gael effaith wirioneddol ar lefel ysgolion, lleihau'r baich a chreu lle i athrawon addysgu.

# 4. Arweinwyr ysgolion

Yn dilyn adolygiad helaeth o'r cymhwyster ar gyfer prifathrawiaeth, dechreuodd y rhaglen genedlaethol newydd ar gyfer datblygu penaethiaid y dyfodol, sy'n arwain at ddyfarnu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), ym mis Ionawr 2025.

Mae angen i ni ddeall yn well y galw am benaethiaid yn y dyfodol. Yn dilyn y rownd gyntaf o geisiadau ar gyfer CPCP, buom yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i rannu data gyda phob awdurdod lleol ar y 700 o unigolion sy'n dal y CPCP ar hyn o bryd ond nad ydynt yn gweithio fel penaethiaid. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol dros y misoedd nesaf i ddatblygu modelau cynllunio olyniaeth.

Bydd Dysgu nawr yn bwrw ymlaen â'r gwaith o adolygu'r holl raglenni arweinyddiaeth presennol ar gyfer arweinwyr canol ac uwch ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ystod o ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion ein harweinwyr yn y dyfodol mewn ystod o feysydd.

# 5. Amrywiaeth y gweithlu

Rwy'n ymrwymedig i sicrhau amrywiaeth o fewn y proffesiwn addysgu, nid yn unig o ran ethnigrwydd ond o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a phrofiad bywyd. Rwyf am i ddysgwyr Cymru gael eu haddysgu gan athrawon rhagorol o bob oedran, llwybr gyrfa, cefndir, ac ethnigrwydd.

Ym mis Ionawr 2025 roedd:

- 340 o athrawon (1.3%) o ethnigrwydd Du, Asiaidd, Cymysg neu ethnigrwydd arall o'i gymharu â 15% o ddisgyblion
- Roedd 18,655 o athrawon (74.3%) yn fenywod. Roedd menywod yn cyfrif am 66.6% o athrawon mewn arweinyddiaeth.

Mae'r llwybrau AGA Amgen yn denu ac yn cofrestru myfyrwyr na allai fod wedi cael mynediad i'r proffesiwn fel arall. Maent yn garfan unigryw sy'n darparu athrawon ychwanegol i'r proffesiwn gyda chefndiroedd a phrofiadau bywyd amrywiol. Bwriad y TAR cyflogedig, ein llwybr hyfforddi athrawon sy'n seiliedig ar gyflogaeth, yw ehangu mynediad i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r proffesiwn trwy raglenni AGA amser llawn ac mae ganddo'r fantais ychwanegol o alluogi ysgolion i dyfu eu hathrawon eu hunain o'u gweithlu presennol a'u cymuned ehangach.

Mae'r Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021 yn amlinellu strategaeth i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu addysgu ledled Cymru. Nod y cynllun yw cynyddu nifer yr ymgeiswyr lleiafrifoedd ethnig sy’n cael eu recriwtio i raglenni AGA, gan fynd i'r afael â'r tan-gynrychiolaeth bresennol. Y nod yw arwain at garfannau mwy amrywiol o athrawon dan hyfforddiant, gan gyfoethogi dysgu cymheiriaid a safbwyntiau o fewn yr amgylchedd AGA.

Mae pob partneriaeth AGA wedi datblygu a chyhoeddi strategaethau recriwtio penodol i ddenu myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u teilwra i fynd i'r afael â rhwystrau lleol a chenedlaethol ac fe'u cefnogir gan ymgysylltu â'r gymuned.

Roedd y cynllun cymhelliant addysg gychwynnol athrawon ar gyfer rhai o gymunedau ethnig lleiafrifol yn ymrwymiad a wnaed o dan Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru ac mae'n dyfarnu £5,000 i fyfyrwyr cymwys.

# 6. Effaith ar gyflawni diwygiadau addysgol

Rwyf wedi nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella safonau addysgol – gwella presenoldeb a chyflawni gwelliant parhaus mewn cyrhaeddiad addysgol mewn llythrennedd a rhifedd fel y gall pob dysgwr gyflawni ei botensial, ar draws pob grŵp gallu a pha bynnag heriau sy'n eu hwynebu. Mae diwygio cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn parhau i fod yn ganolog.

Mae gwerthuso a monitro parhaus o ADY a'r cwricwlwm wedi nodi pwysau llwyth gwaith cynyddol o ganlyniad i'r diwygiadau hyn. Bydd y camau rydym yn eu cymryd i leihau llwyth gwaith, fel yr amlinellir uchod, yn caniatáu inni barhau i ystyried sut i gefnogi ymarferwyr i gyflawni ein diwygiadau a'n blaenoriaethau. Rwyf hefyd wedi cytuno ar y 6ed diwrnod INSET ychwanegol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26, ac wedi comisiynu ymchwil i ddeall yn well y defnydd o ddiwrnodau INSET gan ysgolion i lywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gweithlu yn parhau i fod yn gefnogol ac yn ymrwymedig i ddyheadau'r cwricwlwm newydd a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r gweithlu yn allweddol i weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn llwyddiannus. Rwyf wedi nodi uchod y camau presennol yr ydym yn eu cymryd.

# 7. Effaith ar ddysgwyr

Mae llwyddiant ein system addysg a sicrhau'r deilliannau gorau i'n dysgwyr yn dibynnu ar weithlu o ansawdd uchel, ac mae'n hanfodol ein bod yn darparu'r gefnogaeth a'r amodau gorau iddynt.

Mae dysgwyr wrth wraidd yr holl gamau yr ydym eisoes yn eu cymryd i gefnogi recriwtio a chadw a amlinellir yn y papur hwn.

Yn ogystal, eleni, rydym yn cefnogi'r canlynol sydd i gyd yn cyfrannu at sicrhau bod gan ysgolion weithlu digon medrus i gefnogi ein dysgwyr:

- £44 miliwn o Gymorth Cenedlaethol i ysgolion. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu dysgu proffesiynol a chymorth cyson yn genedlaethol i weithwyr proffesiynol mewn meysydd gan gynnwys: mathemateg, llythrennedd, gwyddoniaeth a chyfrifiadureg, ieithoedd rhyngwladol, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

- Trwy ein dysgu proffesiynol dylunio cwricwlwm, rydym yn darparu cefnogaeth genedlaethol i ysgolion ar faterion allweddol dilyniant, asesu a dylunio cwricwlwm, sy'n cynnwys cymorth cydweithredol dwys, wedi'i dargedu ac sydd ar gael yn genedlaethol ynghyd â dulliau ymarferol a thempledi ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Mae adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol gyda 100% o'r cyfranogwyr yn gweld y rhaglen yn glir ac yn berthnasol yn ogystal ag elwa o weithio ar y cyd ag ysgolion eraill. Mae hyn yn rhoi mynediad i bob athro i'r offer i adeiladu cwricwlwm rhagorol gyda disgwyliadau uchel o'u dysgwyr.

- Er mwyn cymryd pwysau oddi ar staff addysgu ac i wella presenoldeb fel rhan o gyllideb 2025-26, roeddwn yn falch o fod wedi sicrhau £9.5m ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd - £3m yn fwy nag yn 2024-25. Mae hon yn un elfen o dros £11m i gefnogi dulliau Ysgolion Bro yn 2025/26.

- Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd canllawiau ymgysylltu amlasiantaethol i helpu ysgolion i weithio gyda sectorau a gwasanaethau eraill a'u cefnogi nhw ac asiantaethau eraill i ddatblygu gweithio partneriaeth mwy effeithiol. Dyma'r darn olaf yn ein cyfres o ganllawiau Ysgolion Bro.

- Mae gan ein Grant Datblygu Disgyblion ran allweddol i'w chwarae wrth gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o safonau uchel a dyheadau i bawb. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae cyllideb o tua £128m wedi'i dyrannu yn 2025-26, ac mae’n cael ei ddyrannu drwy elfen ecwiti y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

# 8. Effaith ar athrawon a'r gweithlu ehangach

Mae cynorthwywyr addysgu yn rhan hanfodol a gwerthfawr o'n gweithlu addysg, ac rydym am wneud yn siŵr bod ganddynt y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu.

Mae athrawon cyflenwi hefyd yn rhan hanfodol o'r gweithlu ac, ynghyd â phartneriaid, rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i'w cefnogi ac i sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo'n well.

Wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg ymhellach, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymdeithasol a'n rhanddeiliaid i:

- cytuno sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'm hymrwymiad i wella cyflog ac amodau ar gyfer ein staff cymorth, sy'n chwarae rhan hanfodol yn ein hysgolion, a
- datblygu ein cynigion ar gyfer cwmpasu absenoldeb athrawon, sy'n faes cymhleth oherwydd yr amrywiaeth o wahanol ffyrdd sydd gan awdurdodau lleol o ddod o hyd i staff cyflenwi.